| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Brathu - Meithrinfa Toybox<br>Biting Policy - Toybox Nursery |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 2 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Students |

COLEG CAMBRIA

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | [Impact assessment]() |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | Staff y Feithrinfa<br>Nursery staff | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *22/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | - |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | - |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | *31/01/2028* | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu]()
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form]()

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

1. Ym Meithrinfa Toybox rydym yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol bob amser. Rydym yn deall fod plant o bosib yn ymddwyn mewn ffordd benodol fel brathu rhywun i gyfathrebu eu teimladau a'u hanghenion. Mae brathu yn fath cyffredin o ymddygiad y mae rhai plant yn ei ddefnyddio i'w helpu nhw i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas ac i ryngweithio ag eraill. Mae'n bosib iddyn nhw gael eu sbarduno pan nad oes ganddyn nhw'r geiriau i gyfleu eu dicter, eu rhwystredigaeth neu eu hangen. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gyflawni angen ysgogiad geneuol, fel yn ystod cyfnodau o fagu dannedd, neu archwilio datblygiadol. Weithiau mae brathu yn gallu bod yn arwydd o Angen Addysgol Arbennig/Angen Dysgu Ychwanegol a/neu anabledd.

2. Mae'r feithrinfa yn defnyddio'r strategaethau canlynol i helpu plant i stopio brathu:
    - 2.1. Amseroedd unigol un i un a grwpiau bach fel bod pob plentyn yn derbyn sylw cadarnhaol
    - 2.2. Ardaloedd tawel a chysurus i blant sy'n teimlo fod popeth wedi mynd yn ormod iddyn nhw
    - 2.3. Storïau, pypedau a thrafodaeth am emosiynau a theimladau, gan gynnwys gweithgareddau a straeon sy'n helpu plant i adnabod eu teimladau ac i ddangos empathi gyda chymeriadau a digwyddiadau
    - 2.4. Adnoddau ychwanegol i blant sydd ag anghenion ysgogiad geneuol fel modrwyau dannedd neu fwclis cnoi
    - 2.5. Staff gwyliadwrus sy'n adnabod y plant yn dda ac sy'n gallu nodi pryd mae angen mwy o ysgogiad neu amseroedd tawel ar blant
    - 2.6. Darparu adnoddau digonol a, lle bo modd, darparu mwy nag un adnodd neu degan i leihau gwrthdaro.

3. Mae pob plentyn yn cael ei drin fel unigolyn ac rydym yn gweithio gyda theuluoedd i helpu gydag anghenion unigol yr holl blant. Gan gadw hynny yn y cof, mae'n angenrheidiol i weithredu strategaethau gwahanol yn dibynnu ar anghenion y plentyn sy'n brathu.

4. Rydym yn defnyddio'r gweithdrefnau canlynol ar gyfer achos o blentyn yn cael ei frathu.

    - 4.1. Bydd yr aelod staff mwyaf perthnasol yn:
        - 4.1.1. Cysuro unrhyw blentyn sydd wedi cael ei frathu ac yn edrych am unrhyw anaf gweledol. Rhoi cymorth cyntaf pediatrig pan fo angen a llenwi ffurflen ddamweiniau ar ôl i'r plentyn dawelu. Os yn briodol rhaid ffonio'r rhieni i roi gwybod iddyn nhw. Bydd staff yn parhau i edrych ar y brathiad i wneud yn siŵr bod yna ddim arwyddion o haint. Ar gyfer dibenion cyfrinachedd a gwrthdaro posib ni fyddwn yn datgelu wrth y rhieni beth yw enw'r plentyn sydd wedi brathu.
        - 4.1.2. Dweud wrth y plentyn sydd wedi brathu fod gwneud hynny (yr ymddygiad ac nid y plentyn) yn angharedig a dangos i'r plentyn ei fod yn gwneud y staff a'r plentyn sydd wedi cael ei frathu yn drist.
        - 4.1.3. Gofyn i'r plentyn beth allent ei wneud i wneud i'r 'plentyn sydd wedi cael ei frathu' deimlo'n well (gallai hyn fod yn nôl tegan iddyn nhw neu rannu teganau gyda nhw, rhwbio'r cefn ac ati.)
        - 4.1.4. Llenwi ffurflen digwyddiad i'w rannu gyda'r rhieni ar ddiwedd sesiwn y plentyn
        - 4.1.5. Os yw plentyn yn parhau i frathu, cynhelir arsylwadau i geisio dod o hyd i'r achos, e.e. blinder neu rwystredigaeth.
        - 4.1.6. Cynnal cyfarfod gyda rhieni'r plentyn i ddatblygu strategaethau i geisio stopio'r plentyn rhag brathu. Bydd rhieni'n dawel eu meddwl ei fod yn rhan o ddatblygiad plentyn ac na fyddant yn gorfod teimlo mai eu bai nhw yw hynny.
        - 4.1.7. Os bydd brathiad yn torri'r croen, ac i leihau'r risg o haint gan facteria, efallai y bydd angen triniaeth brydlon ar y plentyn sydd wedi brathu a'r plentyn a gafodd ei frathu.
        - 4.1.8. Os yw plentyn neu aelod staff yn cael clwyf brathiad lle mae'r croen wedi'i dorri'n ddifrifol efallai y bydd angen sylw meddygol brys arno ar ôl i'r cymorth cyntaf cychwynnol gael ei gynnal.

5. Mewn achosion lle mae plentyn yn brathu'n barhaus ac/neu os oes ganddyn nhw angen addysgol arbennig/angen dysgu ychwanegol neu anabledd sy'n eu harwain nhw i frathu yn rheolaidd, er enghraifft mewn rhai achosion o awtistiaeth lle does gan blentyn ddim sgiliau cyfathrebu bydd rheolwr y feithrinfa yn cyflawni asesiad risg ac o bosib yn argymell imiwneiddio gyda brechlyn hepatitis B i bob aelod o staff a phlant.